



<b>CYFARFOD</b>	<b>Cyd-bwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	22 Tachwedd 2017
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad 2il Chwarter</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2017/18.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys yr wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd

## **1. CASGLIAD**

- 1.1 Adroddwyd yn yr adolygiad chwarter 1af amcangyfrif gorwariant net o £10,660 yn erbyn y gyllideb, gydag adleoli swyddfa ardal Fflint/Wreccsam y prif reswm dros hyn.
- 1.2 Erbyn hyn mae'r gorwariant net wedi cynyddu i £14,761, ac mae rhan ddilynol yr adroddiad yn egluro'r rhesymau dros y prif amrywiadau.

## **2. AMRYWIADAU ARIANNOL**

- 2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:**  
**Chwarter 2: tanwariant (£7,263) (Chwarter 1: tanwariant (£14,026)).**

Adroddwyd yn Chwarter 1 bod trosiant staff a'r cyfnod pan oedd y Rheolwr Gyfarwyddwr mewn swydd dros dro a rhan-amser (Ebrill a Mai 2017) wedi arwain at danwariant un-tro cymharol fychan.

Erbyn hyn, mae cynnydd mewn costau yn dilyn penodi staff ychwanegol dros dro o ganlyniad salwch hir dymor yn lleihau'r tanwariant.

## 2.2 **Adeilad - Rhent:**

**Chwarter 2: gorwariant £29,750 (Chwarter 1: gorwariant £29,750).**

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1, sef gorwariant, gan fod GwE wedi adleoli ei swyddfa ardal Fflint/Wreccsam er 1 Medi, gyda'r gost flynyddol yn uwch na chost y swyddfa flaenorol (effaith 7 mis am eleni sydd wedi'i gynnwys uchod). Mae angen adnabod dull ariannu parhaol ar gyfer y cynnydd cost blwyddyn gyfan.

## 2.3 **Cludiant – Costau Teithio:**

**Chwarter 2: tanwariant (£7,727) (Chwarter 1: tanwariant (£5,064)).**

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi'i sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn 2017/18.

## 3. **CRONFA TANWARIANT**

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2017/18 oedd (£738,572).

3.2 Mae cynllun busnes GwE yn cynnwys defnyddio £399,750 yn ystod 2017/18.

<b>Blaenoriaeth Cynllun Busnes</b>	
Safonau	£140,500
Cwricwlwm ac Asesu	£62,500
Arweinyddiaeth	£102,750
Lles	£13,000
Addysgu	£36,000

Adleoli swyddfa: £45,000

3.3 Amcangyfrif cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2017/18 yw £324,061, wedi ystyried y gorwariant a ragwelir a'r defnydd yn y flwyddyn.

## 4.0 **ATODIADAU**

4.1 Atodiad 1: Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad 2il Chwarter 2017/18.

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

---

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad